# 4

# 1 MAE GENNYT BROBLEM

Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom. 1 Ioan 1:8

Cyflog pechod yw marwolaeth.
Rhufeiniaid 6:23

Gosodir ni oll gerbron gorseddfainc Crist. Canys y mae yn ysgrifenedig: 'Byw wyf fi' medd yr Arglwydd, 'pob glin a blyga i mi, a phob tafod a gyffesa i Dduw'. Felly gan hynny pob un ohonom drosto'i hun a rydd gyfrif i Dduw. Rhufeiniaid 14:10-12

Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef. Ioan 3:36

Digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion.
Rhufeiniaid 1:18

# 4 MAE DY BROBLEM WEDI EI DATRYS AM BYTH

Dywedodd Iesu: 'Y sawl sydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu'r hwn am hanfonodd i, a gaiff fywyd tragwyddol.' Ioan 5:24

Yng Nghrist y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed, sef maddeuant pechodau. Effesiaid 1:7

Y mae Iesu Grist yn aros yn dragywydd . . . am hynny efe a ddichon achub hyd yr eithaf y rhai sydd yn dyfod at Dduw trwyddo ef, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy. Hebreaid 7:24-25

Os yw dyn yng Nghrist, y mae efe yn greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio, wele gwnaethpwyd pob peth yn newydd.
2 Corinthiaid 5:17

Ef sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio, a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant.
Jwdas 24 (BCN)

# 3 MAE DUW WEDI DATRYS DY BROBLEM

Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol. Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd i ddamnio'r byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef.
Ioan 3:16-17

Yn hyn y mae cariad — nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau. 1 Ioan 4:10

Pan amlygwyd daioni Duw, ein Gwaredwr, a'i gariad tuag at ddynion, fe'n hachubodd ni, nid ar sail unrhyw weithredoedd o gyfiawnder a wnaethom ni, ond o'i drugaredd ei hun. Titus 3:4-5 (BCN)

Crist hefyd unwaith a ddioddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw.
1 Pedr 3:18

Rhodd Duw yw bywyd tragwyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Rhufeiniaid 6:23

# 2 FEDRI DI DDIM DATRYS DY BROBLEM

---

Ni chaiff dyn ei gyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd yn Iesu Grist. Canys os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna bu Crist farw yn ofer. Galatiaid 2:16, 21

Prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid. Rhufeiniaid 5:8 (BCN)

Dywedodd Iesu: 'Myfi yw'r ffordd . . . nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi.' Ioan 14:6

Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall; canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ymhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig. Actau 4:12

Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hynny nid ohonoch eich hunain, rhodd Duw ydyw; nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb. Effesiaid 2:8-9

# FELLY

## Tro dy gefn ar bechod

Duw sydd yr awron yn gorchymyn i bob dyn ym mhob man edifarhau.
Actau 17:30

Edifarhewch, ynteu, a throwch at Dduw, er mwyn dileu eich pechodau. Actau 3:19 (BCN)

## Cred yng Nghrist

Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac fe gei dy achub. Actau 16:31

Dywedodd Iesu: 'Na fydd anghredadun, ond credadun . . . bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant.' Ioan 20:27, 29

Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol.
Ioan 3:36

## Arddel Grist gerbron dynion

Os cyffesi Iesu yn Arglwydd â'th enau, ac os credi yn dy galon fod Duw wedi ei gyfodi ef oddi wrth y meirw, cei dy achub.
Rhufeiniaid 10:9 (BCN)

Welsh FS WLS

Scripture Gift Mission, 3 Eccleston Street, Llundain SW1W 9LZ